

No.

CABINET

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 11 Mai, 2023.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd B.E. Brooks (Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod);
Cynghorwyr R.M. Birch, G. John, R. Sivagnanam, E. Williams a M.R. Wilson.

C299 CYHOEDDIAD -

Croesawodd y Dirprwy Arweinydd bob plaid i gyfarfod y Cabinet gan atgoffa pawb oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac y caiff y recordiad hwn ei archifo ar gyfer gwyllo yn y dyfodol.

Gofynnodd i'r holl gyfranogwyr 'fudo' eu hunain pan nad oeddent yn siarad er mwyn osgoi unrhyw sŵn cefndir pan oedd cyfranogwyr eraill yn siarad, a dywedodd, pe bai cyfranogwyr yn dymuno siarad, y dylent godi eu llaw (i gael eu gweld ar y sgrîn) neu ddefnyddio'r swyddogaeth 'codi llaw'.

Gofynnwyd i'r Aelodau hefyd sicrhau bod pob trafodaeth ar lafar ac nid trwy'r swyddogaeth 'sgwrsio' er mwyn y recordiad. Gellid defnyddio'r swyddogaeth 'sgwrsio' i dynnu sylw at unrhyw faterion technegol a/neu i gael sylw'r Cadeirydd neu Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd.

C300 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hyn gan y Cynghorydd L Burnett a oedd yn rhoi cyflwyniad i'r Senedd yng Nghaerdydd y prynhawn hwnnw.

C301 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ebrill, 2023 fel cofnod cywir.

C302 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

**C303 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL BRO MORGANNWG 2011-2026:
CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL AR DDATBLYGU MANWERTHU A
CHANOL TREFI A DATBLYGU ECONOMAIDD, TIR AC ADEILADAU
CYFLOGAETH – ADBORTH SESIWN BRIFFIO AELODAU (YCCGR) (CRAFFU
- AMGYLCHEDD AC ADFYWIO) -**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd cynghori'r Cabinet ar adborth sesiwn friffio Aelodau mewn perthynas â'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) mewn perthynas â Datblygu Manwerthu a Chanol y Dref a Datblygu Economaidd, Tir a Safleoedd Cyflogaeth. Dywedodd yr Aelod Cabinet ymhellach, er nad oedd rhai o'r materion a drafodwyd yn y sesiwn friffio yn uniongyrchol berthnasol i'r CCAau, fodd bynnag, byddai'r rhain yn cael eu codi eto yn y sesiynau "creu lleoedd" yn y dyfodol a oedd i'w trefnu. Ychwanegodd fod yr adroddiad hefyd yn amlygu bod y CCA yn rhoi cydbwysedd rhwng darparu rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer defnydd newydd priodol i leoli yng nghanol y dref o ystyried natur newidiol manwerthu wrth ddal i gadw swyddogaeth fanwerthu.

I gloi, ychwanegodd yr Aelod Cabinet ei bod yn dymuno diwygio Argymhelliad 3 yn yr adroddiad i gynnwys holl Aelodau'r Cyngor.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) Nodi cynnwys yr adroddiad a'r adborth a wnaed fel rhan o'r sesiwn friffio Aelodau fel y manylir yn Atodiad 1 ac na ddylid gwneud unrhyw welliannau pellach i'r dogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) fel y cymeradwywyd yng nghyfarfod y Cabinet ar 27 Chwefror 2023.

(2) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Craffu Amgylchedd ac Adfywio i gael ei ystyried. Pe bai'r Pwyllgor Craffu yn penderfynu derbyn Penderfyniad (1), na ddylid gwneud unrhyw welliannau pellach i'r CCAau cymeradwy, byddai'r dogfennau'n cael eu defnyddio ar unwaith fel rhan o'r broses Rheoli Datblygu.

(3) Y bydd holl Aelodau'r Cyngor yn cael, canlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus, sesiwn friffio'r Aelodau a mabwysiadu'r CCA er eu gwybodaeth drwy e-bost.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) I darparu crynodeb o'r sesiwn friffio Aelodau a gynhaliwyd ar CCAau y Datblygiad Manwerthu a Chanol y Dref a Datblygu Economaidd a Thir a Safleoedd Cyflogaeth; ac i geisio cymeradwyaeth y Cabinet nad oes angen unrhyw newidiadau pellach i'r CCAau terfynol.

No.

(2) Sicrhau craffu priodol ar yr adroddiad.

(3) Sicrhau bod yr holl Aelodau'n cael eu hysbysu o fabwysiadu'r CCAau fel ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio yn y dyfodol.

(3) To ensure that all Members are apprised of the adoption of the SPG's as material considerations in the determination of future planning applications.